



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Hawliadau Ôl-weithredol am Ad-daliad

Cwestiynau Cyffredin

Tachwedd 2014

Beth yw gofal iechyd parhaus y GIG a sut ydw i'n gwybod a allwn i neu'r sawl sy'n derbyn gofal gennyf fod yn gymwys?

Gofal iechyd parhaus y GIG (GIP) yw'r enw a roddir i un neu fwy o wasanaethau sy'n cael eu trefnu a'u hariannu yn gyfan gwbl gan y GIG ar gyfer y rheini sydd wedi'u hasesu fel pobl ag 'angen iechyd sylfaenol'.

Gallwch dderbyn GIP mewn unrhyw leoliad gan gynnwys yn eich cartref eich hun neu mewn cartref gofal.

Yn eich cartref eich hun, golyga hyn y bydd y GIG yn talu am ofal iechyd (er enghraifft, gwasanaethau gan nyrs gymunedol neu therapydd arbenigol) a gofal personol (megis cymorth i ymolchi a gwisgo), ond nid yw'n cynnwys cost y canlynol:

- bwyd
- llety
- cymorth cyffredinol yn y cartref.

Mewn cartref gofal, os ydych yn gymwys i gael GIP, mae'r GIG yn talu cyfanswm ffioedd eich cartref gofal.

Ariennir GIP gan y GIG, yn wahanol i help gwasanaethau cymdeithasol, y gellir codi ffi amdano yn dibynnu ar eich incwm, eich cynilion a'ch asedau cyfalaf.

Os bydd asesiadau gweithwyr proffesiynol amrywiol yn dangos mai angen iechyd yw'ch angen sylfaenol chi neu'r sawl sy'n derbyn gofal gennyf, dylech chi neu ef/hi fod yn gymwys i gael GIP.

Nid yw'n dibynnu ar gyflwr, clefyd na diagnosis penodol yr unigolyn nac ar bwy sy'n darparu'r gofal na lle caiff ei ddarparu.

Mae'n bosibl y bydd angen llawer o help a chymorth ar bobl o ganlyniad i salwch neu gyflwr, ond efallai na fyddant wedi'u hasesu fel rhywun ag 'angen iechyd sylfaenol'.

I gael mwy o wybodaeth am Ofal Iechyd Parhaus, gweler y Daflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.wales.gov.uk/topics/health/nhswales/healthservice/chc-framework/?skip=1&lang=cy neu gallwch ofyn i'ch Bwrdd Iechyd Lleol am gopi.

I gael manylion Byrddau Iechyd Lleol, ewch i:

www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur

Rydw i/Mae fy mherthynas yn byw mewn cartref gofal; a ddylwn i/a ddylai ef/hi fod wedi derbyn asesiad GIP eisoes?

Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru mae disgwyl i unrhyw un sydd angen gofal hirdymor fod wedi derbyn asesiad trylwyr o'i anghenion. Os bydd angen gofal mewn cartref nyrsio, dylai GIP gael ei ddiystyru cyn caniatáu Gofal Nyrsio a Ariennir.

Mae Cartrefi Nyrsio yn cyflogi nyrsys cofrestredig i ddarparu gofal nyrsio i'r rhai sydd ei angen. 'Gofal Nyrsio a Ariennir' yw'r taliad mae'r GIG yn ei wneud tuag at y costau hyn.

Dylech chi fod wedi bod yn rhan o'r asesiad ac wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r canlyniad.

Er y bydd y GIG yn ceisio gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, efallai y bydd pobl yn llithro drwy'r rhwyd o bryd i'w gilydd.

Os nad ydych chi'n siŵr, cysylltwch â'ch BILL.

O dan ba amgylchiadau alla i wneud hawliad ôl-weithredol am ad-daliad?

Gall unigolyn neu ei gynrychiolydd wneud cais am adolygiad ôl-weithredol os yw wedi cyfrannu at gostau ei ofal, ond bod ganddo reswm i gredu ei fod wedi bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer GIP a oedd yn berthnasol ar y pryd.

Mae hawliad am adolygiad ôl-weithredol yn wahanol i apêl yn erbyn asesiad GIP presennol a phenderfyniad ar gymhwysedd.

Sut ydwy i'n gwneud hawliad?

Os ydych chi'n credu bod gennych chi hawl i wneud hawliad, cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd yn anfon 'Taflen Gwybodaeth i Hawlwyr' atoch sy'n egluro'r broses ac yn gofyn i chi am rywfaent o wybodaeth sylfaenol.

Os mai cynrychiolydd ydych chi, rhaid i chi allu darparu tystiolaeth o'ch hawl i wneud yr hawliad, megis Atwrneiaeth, neu os nad yw'r sawl yn fyw mwyach, Grant Profiant.

Rhaid i bob hawliwr hefyd gyflwyno tystiolaeth hefyd bod y ffioedd wedi'u talu i'r cartref gofal neu'r asiantaeth gofal cartref.

A oes rhaid i mi wneud cais cyn dyddiad penodol?

Oes. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi dyddiadau cau ar gyfer adolygiadau ôl-weithredol ac mae ei chanllawiau diweddaraf yn nodi dyddiad cau blyneddol ar gyfer ceisiadau.

Mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, ac i'r GIG ymateb iddynt, yn y tabl isod:

Dyddiadau Cau ac Amserlenni ar gyfer Adolygiadau Ôl-weithredol GIP		
Cyfnod Hawlio	Cyflwyno'r Bwriad i Hawlio erbyn:	Achos i'w adolygu o fewn:
1 Ebrill 2003 tan 31 Gorffennaf 2013	31 Gorffennaf 2014	2 flynedd
1 Awst 2013 tan 30 Medi 2014	1 Hydref 2015	Blwyddyn
O 1 Hydref 2014 ymlaen	Ni fydd y cyfnod hawlio i'w ystyried yn fwy na 12 mis cyn dyddiad y cais am adolygiad.	6 mis

Mae'r amserlen ar gyfer adolygu'r achos yn dechrau ar y dyddiad y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn anfon llythyr atoch yn cadarnhau bod gennych chi'r awdurdod i hawlio a'ch bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol bod y taliadau wedi'u gwneud.

Faint o amser sydd gen i i ddarparu tystiolaeth o'm hawdurdod i hawlio a thystiolaeth bod y taliadau wedi'u gwneud?

Pan fyddwch chi'n gwneud cais am adolygiad ôl-weithredol, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n rheoli'ch hawliad yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu'r wybodaeth hon a chyflwyno'ch ffurflen gais o fewn 6 wythnos.

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar y dystiolaeth y gofynnwyd amdani, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol i roi gwybod iddynt. Nhw fydd yn penderfynu a yw'n briodol rhoi estyniad i chi.

Os na fyddant yn clywed gennych chi, byddant yn cymryd na allwch chi ddarparu'r wybodaeth ofynnol neu nad ydych chi am barhau â'r cais, a byddant yn cau'r achos.

Mae fy amgylchiadau personol yn golygu fy mod i angen i'm hawliad gael ei adolygu'n gyflymach. Beth alla i ei wneud?

Er mwyn sicrhau tegwch, bydd hawliadau'n cael eu trafod ar sail trefn dyddiad (y dyddiad y cawsant eu cyflwyno).

Dim ond os gall yr hawlydd ddangos tystiolaeth o amgylchiadau arbennig megis caledi ariannol difrifol neu ddiagnosis o salwch angheuol y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried blaenoriaethu achosion.

Os ydych chi'n credu bod amgylchiadau arbennig yn berthnasol yn eich achos chi, rhowch wybod i'ch Bwrdd Iechyd Lleol.

Ydw i angen cyfreithiwr?

Nid proses gyfreithiol yw hon ac nid oes rhaid penodi cyfreithiwr. Bydd y GIG yn gwneud yr holl waith sydd angen ei wneud i adolygu achos am ddim.

Os byddwch chi'n penderfynu penodi cyfreithiwr i'ch cynrychioli, ni fydd eich costau cyfreithiol yn cael eu had-dalu.

A oes yna rywun a all fy helpu i gyda'r broses?

Mae'r GIG yn gweithio i wneud y broses mor hawdd â phosibl i hawlwyd. Fodd bynnag, os ydych chi'n teimlo eich bod angen cymorth, mae yna asiantaethau eiriolaeth sy'n gallu darparu'r cymorth hwn am ddim.

Sylwch fod yr asiantaethau hyn yn wahanol i'r rhai sy'n hysbysebu eu hunain fel Asiantaethau Hawliadau. Bydd Asiantaethau Hawliadau yn codi tâl am eu gwasanaeth gan amlaf.